

20 Mlynedd o Weithio mewn Partneriaeth

Mis Hydref oedd 20^{fed} pen-blwydd cyhoeddi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro a lansiad ffurfiol Partneriaeth y CGBLI, rhagflaenydd y Bartneriaeth Natur bresennol. Mae'r Bartneriaeth wedi bod yn gweithredu'n barhaus byth ers hynny gyda swyddog yn ei swydd i gydgyssylltu a hyrwyddo camau gweithredu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn ein sir.

Sir Benfro yw'r unig sir yng Nghymru i fod wedi gweithredu Partneriaeth Natur yn barhaus am y cyfnod hwn ac mae'r parhad a ddarperir gan ymrwymiad hirdymor partneriaid yn cael ei gydnabod yn eang fel patrwm delfrydol o ran trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer cadwraeth. Mae'r Bartneriaeth wedi bod yn ddylanwadol o ran llunio polisi lleol a chenedlaethol ac o ran gweithredu mewn modd ymarferol ar draws ystod eang o rywogaethau, cynefinoedd a chymunedau.



Nodwyd y pen-blwydd ag 'aduniad' ar-lein oherwydd y cyfyngiadau ar gwrdd go iawn yn ystod pandemig Covid 19. Cofrestrodd hanner cant o bobl a oedd yn cynrychioli 23 o fudiadau ar gyfer y digwyddiad a oedd yn cynnwys cyflwyniadau a oedd yn amlygu gwaith diweddar gyda phartneriaid, crynhoad o uchafbwyntiau'r 20 mlynedd ddiwethaf a sesiynau ymneilltuo i edrych ymlaen at brosiectau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r Bartneriaeth yn rhan o brosiect tair blynedd i gynyddu capasiti yn y sector trwy adfer Partneriaethau Natur Lleol ym mhob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am Brosiect PNLI Cymru yma: <https://lnp.cymru/>.

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyfrl 17 Rhifyn 2
Hydref/Gaeaf 2020

Yn y rhifyn hwn

20 Mlynedd o Weithio mewn Partneriaeth
Tudalennau 1—2

Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Tudalen 2



PEMBROKESHIRE COAST
CHARITABLE TRUST



Proffiliau Ecosystemau
Tudalen 3



Tyfu Cysylltiadau Gwell
Tudalennau 3—4

Llwyddiant o ran gweld adar yng
Nghorsydd Teifi
Tudalennau 4—5



Datganiad Ardal Morol
Tudalen 5



Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth
Tudalennau 5—6



EcoDewi
Tudalen 6

Manteision Niferus i afon Cleddau Ddu yn
Dilyn Cael Gwared ar Gored
Tudalennau 6—7

Diweddariad gan Gymdeithas Gwas y
Neidr Prydain
Tudalen 7



Manylion Cysylltu
Tudalen 8

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 1



Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i gyd i adeiladu ar lwyddiannau'r 20 mlynedd ddiwethaf a mynd ati gyda'n gilydd i wrthdroi dirywiad byd natur yn ein sir a'r tu hwnt.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu
Bioamrywiaeth




Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Nodau'r Ymddiriedolaeth yw hyrwyddo, gwarchod a diogelu'r amgylchedd ac addysgu pobl am nodweddion arbennig a manteision natur a'r awyr agored. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r prosiectau gorau a gyflawnir gan y bobl orau ac a oleuir gan Gynllun Rheoli APCAP, cymunedau lleol, ac arbenigwyr ar yr amgylchedd a threftadaeth. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymrwymedig i godi arian i gefnogi a chyflawni nifer o brosiectau a gweithgareddau gyda phartneriaid yn Sir Benfro.

Yn gynharach yn y flwyddyn fe gyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei hadroddiad effaith cyntaf. A hithau wedi codi dros £50,000 roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu cefnogi 5 o brosiectau a adnabuwyd fel blaenoriaethau i'r Parc Cenedlaethol yn 2019/20, sef:

- Pwyth mewn Pryd – mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol
- Pobl, Llwybrau a Pheillwyr – rheoli llwybr yr arfordir mewn modd sy'n 'ystyriol o beillwyr'
- Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro – cefnogi addysg awyr agored yn y sir
- Gwreiddau Roots – gweithio gyda chlwstwr o ysgolion ar fwyd, ffermio a'r amgylchedd
- Adfer Llwybr yr Arfordir ar ôl Difrod Stormydd Gellir gweld yr adroddiad cyfan ar y wefan www.pembrokeshirecoasttrust.wales


Gwyllt Am Goetiroedd yw ein hymgyrch codi arian diweddaraf, a'i nod yw helpu i blannu a diogelu 1,000 o goed. Gan bartneru gyda'r darlunydd lleol Millie Marotta wrth iddi lansio ei llyfr lliwio Woodland Wild, mae arnom eisiau creu coridorau coetiroedd ledled y Parc Cenedlaethol i fywyd gwyll dyfu a ffynnu.



Mae'r ymgyrch yn cyd-daro â rhyddhau llyfr diweddaraf Millie – Millie Marotta's Woodland Wild (Batsford), dathliad o'r bywyd gwyllt unigryw a geir yng nghoetiroedd y byd, a bydd pawb sy'n rhoi i'r apêl yn cael taflen liwio unigryw a grëwyd yn arbennig ar gyfer yr apêl ac sy'n cynnwys anifail sydd i'w gael yng nghoetiroedd Sir Benfro.

I roi ar-lein ac i gael gwybod mwy am bartneriaeth yr Ymddiriedolaeth gyda Millie Marotta ewch at y dudalen:

www.pembrokeshirecoasttrust.wales/how-you-can-help/wild-about-woodlands/



Elusen a gofrestrwyd gan Gomisiwn Elusennau'r DU yw Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ei rhif elusen gofrestredig yw 1179281.

Fe lansiodd yr Ymddiriedolaeth yn 2019 ac mae'n eistedd ochr yn ochr â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP); fodd bynnag, mae'n gorff cwbl annibynnol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fwrdd o chwech o ymddiriedolwyr sy'n cynnwys dau Aelod o APCAP.

Jessica Morgan
APCAP



Proffiliau Ecosystemau

Mae tîm Datganiad Ardal y De Orllewin yn cyflawni ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol i sicrhau bod adnoddau naturiol ac ecosystemau'n gydnerth yn awr, ac ar gyfer y dyfodol. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy'r Datganiad Ardal rydym yn gobeithio datblygu dealltwriaeth well am gydnerthedd ecosystemau ledled De Orllewin Cymru.

Gallu ecosystemau i ymdrin â phwysau a galwadau, gan hefyd gadw eu gallu i ddarparu gwasanaethau a manteision amgylcheddol yw cydnerthedd ecosystemau. Mae'n anodd meintoli cydnerthedd yn uniongyrchol am bod ecosystemau'n gymhleth ac yn ddeinamig. Un dull pragmatig yw trin amrywiaeth, hyd a lled, cyflwr, cysylltedd ac addasrwydd ecosystemau fel priodoleddau sy'n ymwneud â chydnerthedd.



Mae ein tîm yn awyddus i weithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol a'n cydweithwyr yn CNC sy'n gweithio ledled y De Orllewin, i dynnu ar arbenigedd a dealltwriaeth leol.

Mae gennych gyfoeth o wybodaeth a fydd, ar y cyd â data a dulliau presennol, yn ein helpu i gytuno ar ddsbarthiadau ecosystemau a chydgyhyrchu proffiliau ecosystemau i ddatblygu darlun cywir o gydnerthedd ledled De Orllewin Cymru. Bydd proffiliau

ecosystemau'n rhoi sylfaen wybodaeth a thystiolaeth inni a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth am gydnerthedd ecosystemau sydd, yn ei thro, yn gallu cael ei defnyddio i adnabod cyfleoedd a goleuo prosesau penderfynu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod cydnerthedd ecosystemau'n cael ei gynnal ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Rydym yn awyddus i weithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol a'u haelodau i'n helpu i fframio'r dirwedd ar gyfer proffilio ecosystemau ledled De Orllewin Cymru.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Bryony Wiffen
Cyfoeth Naturiol Cymru

southwest.as@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Tyfu Cysylltiadau Gwell

Ymateb ymarferol a chraff i'r llu o heriau sy'n ein hwynebu yw Tyfu Cysylltiadau Gwell, gyda map trywydd at gydnerthedd yn seiliedig ar gysylltu cymunedau a'r dirwedd yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro.

Dechreuodd y prosiect ym mis Mawrth 2020 gyda Swyddogion Prosiect a oedd newydd eu penodi'n addasu ar unwaith i'r cyfyngiadau ar ymgysylltu â chymunedau oherwydd y Coronafeirws. Fe ymatebodd tîm y prosiect â ffocws penderfynol ar wneud y gwaith paratoi ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, gan gryfhau ac adeiladu rhwydweithiau perthnasol ac adnabod grwpiau ac unigolion fel rhanddeiliaid posibl.

Gan ymateb i'r ymchwydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o dyfu bwyd a dealltwriaeth am amser mewn natur, aeth tîm TCG ati'n gyflym i addasu digwyddiadau a gweithgareddau i weddu i amgylchiadau annisgwyl y cyfnod. Roedd hyn yn cynnwys teithiau natur hunandywys, blog natur a chyflwyno planhigion yn rhoddion mewn partneriaeth gyda neuaddau cymunedol lleol.

Mae Swyddogion y Prosiect wedi dylunio a threalu arolygon o safleoedd; ffyrdd o fwydo i



mewn i gronfeydd data ecoleg cenedlaethol a rhanbarthol ac mae tîm y prosiect wedi cael eu hyfforddi'n barod i wneud gwyddor dinasyddion yn rhan o ymyriadau posibl ar gyfer y dirwedd yn y dyfodol. Mae cysylltiadau â rhanddeiliaid yn cael eu creu er budd nodau Tyfu Cysylltiadau Gwell, gan gynnwys Grŵp Ymchwil Frenni Fawr; Cymdeithas Porwyr Frenni Fach; a Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, yn ogystal â grŵp llywio sy'n cynnwys mudiadau lleol perthnasol.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, roedd TCG yn barod i gynnal digwyddiad amserol ac anffurfiol, Diwrnod Pryfed Garej y Sgwâr. Fe wnaeth y prynhawn o hela pryfed mewn glaswellt hir a chreu gwestai pryfed adeiladu ar gysylltiadau cymunedol presennol, ac roedd yn gyfle da i brofi protocolau tîm TCG. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i blannu coed yn Nhegryn y gaeaf hwn, ac i reoli jac y neidiwr i wella cynefinoedd ym Moncath gan weithio gyda Coed Dulas a thirfeddianwyr cyfagos.

Helfa Pryfed



Mae Tyfu Cysylltiadau Gwell yn awyddus i bartneru gyda mudiadau eraill i gyrraedd ei nodau, sef cyswllt cymunedol ac adfywio'r dirwedd ar draws ardal ehangach byth ac am nifer o flynyddoedd i ddod. Gall unrhyw un wneud gwahaniaeth, gall pawb gymryd rhan – cysylltwch â ni i gael gwybod mwy;

www.cwmarian.org.uk/gbc

gbc@cwmarian.org.uk 01239 831602

Holly Cross

Tyfu Cysylltiadau
Gwell



Llwyddiant o ran gweld adar yng Nghorsydd Teifi

Mae eleni wedi bod yn llwyddiant gwirioneddol i nifer o rywogaethau yng ngwarchodfa natur Corsydd Teifi. Yn sgîl misoedd sych, heulog a chynnes Ebrill a Mai, gwelwyd y manteision gydag ychydig o rywogaethau adar allweddol ar dir y warchodfa.


Glas y Dorlan fu fwyaf toreithiog gydag un ffotograff yn dal 6 unigolyn yn clwydo ar gangen sy'n bargodi dros bwl Glas y Dorlan. Fe'u gwelir yn rheolaidd yn ymborthi o bob ardal o ddŵr agored ac mae'r niferoedd yn fwy eleni nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Crëyr Bach Copog yn gwneud yn dda hefyd a gellir gweld niferoedd mwy yn rhydio ymylon dŵr ac Afon Teifi.



Un rhywogaeth yr ydym wedi cyffroi'n arbennig yn ei chylch yw'r Dylluan Wen. Mae niferoedd ar gyfer y rhywogaeth hon yn gostwng ar raddfa fawrychus ledled y DU; eto, eleni gwelwyd 3 chyw tylluan wen yn cael eu magu ar dir y warchodfa. Mae'r cywion i gyd wedi gadael y nyth bellach ond yn dal i aros ar dir y warchodfa, gan ymborthi dros y dolydd a'r corslwyni. Llwyddodd Grŵp Modrwy Teifi i fodrwy a thynnu lluniau'r cywion (dan drwydded) a byddant yn parhau i'w monitro. Mae tylluanod gwynion wedi bridio'n llwyddiannus yng ngwarchodfa natur Comin Dowrog ar gyrion Tyddewi hefyd. Nid ydym yn sicr ynghylch nifer y cywion sydd wedi gadael y nyth, ond rydym yn gwybod bod oedolion wedi magu eu cywion yn llwyddiannus.



Rhywogaeth adar gyffrous arall i'w hychwanegu at y rhestr yw Aderyn y Bwn. Mae aderyn ifanc, dyflwydd oed mwy na thebyg, wedi penderfynu ymgartrefu yn y warchodfa natur a gellir ei weld yn rheolaidd yn codi ei ben o'r brwyni ar y pwll mawr ar y gors, a welir o'r maes parcio. Maen nhw fel arfer yn mudo i'r ardal hon ar gyfer misoedd y garaf ac felly mae'n galonogol iawn gweld bod yr unigolyn hwn wedi penderfynu ymgartrefu yn y warchodfa trwy gydol y flwyddyn. Y gobaith yw y gall ddenu cymhars y gaeaf hwn ac yn ei dro creu'r boblogaeth fridio gyntaf erioed yn y warchodfa.



Mae'r warchodfa'n dal i fod yr unig safle RAS (Ail-ddal Adar Llawn Dwf ar gyfer Goroesiad) Bras y Gors yn y DU. Mae lluniau o Freision y Gors â modrwyon lliw yn arbennig o werthfawr gan ffotograffwyr. Diolchwn iddynt am eu cyfraniad at y prosiect hwn.

Nathan Walton
Ymddiriedolaeth Natur De a Gogledd Cymru



Datganiad Ardal Morol

Mae'r Datganiad Ardal Morol yn falch i weithio hefo ein nghydweithwyr yn y De Orllewin i cyllido sypyn gwaith rhyngweithio prosiect 'Cymunedau Arfordirol yn Addasu Gyda'u Gilydd' y Pembrokeshire Coastal Forum (PCF). Ffocws hwn yn i chreu ddulliau rhyngweithio ar gyfer cymunedau lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o effeithiau newid hinsawdd a cymryd perchenogaeth am addasiad. Mae CNC, PCF a PSB Sir Benfro yn gweithio hefo'u gilydd hefo cyngorau tref o cymunedau sydd yn potensial o fod yn addas

er mwyn dewis cymuned peilot cymwys yn y De Orllewin.

Mae'r tim Datganiad Ardal De Orllewin hefyd yn cyfrannu tuag at y prosiect PCF 'Defnydd Cyfrifol o'r Awyr Agored' hefo'r tim Datganiad Ardal Morol er mwyn annog teimlad o cyfrifoldeb am ein moroedd ac amgylchedd naturiol rhwng twristiaeth a gweithredwyr adloniant a hamdden y De Orllewin.

Fe fydd y tim Datganiad Ardal Morol yn cynnal digwyddiad morol genedlaethol ar lein ar 13eg a 14eg Ionawr 2021. Fe fydd y digwyddiad yn dod at ei gilydd amrywiaeth o phartneriaid a hapddalwyr lleol a genedlaethol hefo dirddordeb yn amgylchedd morol ac arfordirol Cymru. Fe fydd y digwyddiad yn arlwyio platfform am cydweithrediad, rhwydweithio a rhanu wybodaeth ar raddfa lleol a genedlaethol, hefo'r ymgais o archwilio a datblygu syniadau am prosiectau. Rydym yn y broses o ddatblygu rhaglen y digwyddiad ac fe fydd gwahoddiadau yn cael eu anfon allan yn fuan hefo fwy o wybodaeth. Os gwelwch yn dda, cysylltwch a marine.as@cyfeothnaturiolcymru.gov.uk os hoffech cael eich cynnwys neu i glywed fwy am y digwyddiad.

Emma Lowe
Cyfoeth Naturiol Cymru



Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth

Mae Grŵp yr Amgylchedd Ardal Trefdraeth wedi bod yn cwrdd ar-lein dros y misoedd diwethaf ac yn defnyddio'r amser i ail-grwpio a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gymryd y cyfle i ailstrwythuro'r mudiad yn 'is-grwpiau' i ganolbwyntio ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb lleol, er mwyn rhoi'r amser a'r sylw angenrheidiol i bob pwn. A hwythau'n agored i bawb, mae'r grwpiau canlynol yn cwrdd dros Zoom ar hyn o bryd: Yr Amgylchedd Adeiledig; Yr Amgylchedd Naturiol; Diogelwch Bwyd.

Mae nifer o brosiectau cyffrous yn yr arfaeth gan gynnwys prosiect bioamrywiaeth a lleihau carbon a phrosiect rhywogaethau estron



goresgynol dalgylch cyfan. Rydym yn gobeithio ennyn ymgysylltiad cymaint â phosibl o drigolion lleol o bob oed – garddwyr, busnesau, tirfeddianwyr a grwpiau i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn Nhrefdraeth a'r ardaloedd cyfagos. Gyda set newydd o swyddogion, mae Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth yn amcanu at barhau â gwaith ymroddgar y 14 mlynedd ddiwethaf. Rydym yn gwahodd aelodau newydd a syniadau newydd, felly cysylltwch ar bob cyfrif.

Ewch at ein gwefan www.naeg.org.uk neu anfonwch neges e-bost at Rose Seymour r.seymour132@gmail.com, Ysgrifennydd GAAT, i gael rhagor o wybodaeth.

Rose Seymour
GAAT



EcoDewi

Fel gyda'r rhan fwyaf o grwpiau, fe arafodd gwaith EcoDewi yn aruthrol oherwydd COVID-19; fodd bynnag, digwyddodd un prosiect llwyddiannus o ganlyniad uniongyrchol i'r feirws.

Prosiect a ddaeth yn fyw wrth i drigolion lleol yn Nhyddewi wylïo'n llawn braw wrth i draethau o amgylch y DU gael eu gorchuddio gan sbwriel wrth i bobl ruthro i fwynhau morlinau, yn dilyn llacio'r cyfyngiadau, heb ystyried eu heffaith ar wastraff, oedd Stiwardiaid Traethau'r Penrhyn. Ar ôl cwrdd â thrigolion, ein pryder cyffredin oedd y gallai traethau ym mhenrhyn Tyddewi ddiodeff ffawd tebyg ac y gallai sbwriel cynyddol niweidio bywyd gwyllt lleol, ar y tir ac yn y môr. Gan weithio gyda'r gymuned leol ac yn dilyn cyswllt â rhanddeiliaid lleol (gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Syrffwyr Yn Erbyn Carthffosiaeth, Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Dinas Tyddewi), dechreuodd y prosiect chwilio o ddifrif am wirfoddolwyr. Ar y cyfan dros yr haf, fe weithiom ni gyda 30 o wirfoddolwyr gwych yn y Traeth Mawr. Roeddem yn arbennig o ddiolchgar am gefnogaeth prosiect Eco Hyrwyddwyr Sir Benfro, dan arweiniad Mark Bonds, a grant hael gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Powys. Mae'r prosiect hefyd wedi ailfywiogi grŵp o drigolion sy'n awyddus i gynnal gweithgareddau glanhau traethau yr ydym bellach yn bwriadu eu cynnal bob cwpl o fisoedd dros y gaeaf.



Mewn meysydd eraill, mae ein gwaith ar brosiect solar cymunedol lleol a ninnau wedi partneru â thirfeddiannwr preifat yn parhau ac mae ein sylwadau cyn-ymgeisio ym maes cynllunio wedi cael eu cyflwyno i APCAP ynghyd ag arolwg ecoleg, sydd wedi cael cefnogaeth ariannol gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu ar ein gwefan a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol wrth i'r prosiect ddatblygu.

Mae sgysiau cyffrous yn parhau gydag Eglwys Gadeiriol Tyddewi ynglŷn â sut y gallwn ni weithio gyda hwy i wella'u tir ar gyfer bioamrywiaeth a'r gymuned, ac rydym hefyd yn cael sgysiau ynglŷn â sut y gallwn ni gefnogi'r fenter newydd, Hwb Bwyd Cynhyrchwyr y Penrhyn (rhan o'r Rhwydwaith Bwyd Agored) yn ogystal â phrosiectau Amaethyddiaeth Gynaliadwy yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth chwiliwch am EcoDewi ar Facebook, Instagram a Twitter, ewch at eich gwefan yn ecodewi.org.uk neu anfonwch neges e-bost atom yn hello@ecodewi.org.uk

Jeremy Wadia
Eco Dewi



Manteision Niferus i afon Cleddau Ddu yn Dilyn Cael Gwared ar Gored

Mae prosiect ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru (YAGC) i agor

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 6



rhannau uchaf afon Cleddau Ddu i bysgod mudol wedi cael ei gwblhau. YAGC arweiniodd y gwaith o waredu'r gored ym Melin y Ficer ac mae'n benllanw ar fwy na chwe blynedd o gynllunio gan CNC ac YAGC a bydd yn cyflawni rôl allweddol o ran gwella iechyd Afon Cleddau a'i phoblogaeth bysgod.



Cored wrthi'n Cael Ei Gwaredu

Bydd CNC yn parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio cyfleoedd i adfer afonydd, gan weithio gyda phrosesau naturiol trwy waith [Datganiad Ardal De Orllewin Cymru](#). Bydd ffocws penodol ar gyfleoedd yn ardaloedd Aberdaugleddau a Bae Abertawe. Mae'r rhain yn ddwy o 10 [dalgyrch cyfle](#) y mae CNC wedi'u hadnabod ar gyfer gwaith â ffocws pendant ar reoli'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. O fewn Dalgyrch Cyfle'r Ddau Gleddau ac Aberdaugleddau rydym yn gobeithio cydweithio ar raddfa dalgyrch i fynd i'r afael â materion megis rhywogaethau goresgynnol, darniad cynefinoedd a chyfoethogi maethynnau sy'n bygwth bywyd gwyllt a chynefinoedd pwysig ac a ddiogelir.

Er mwyn canlyn arni â gwaith yn y Dalgyrchoedd Cyfle a chynyddu potensial y ddau rydym yn bwriadu sefydlu gweithgorau lleol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael gwybod mwy a/ neu os hoffech gymryd rhan ar lefel leol cysylltwch ag aelod o'r Tîm Datganiad Ardal ar: southwest.as@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Bryony Wiffen
Cyfoeth Naturiol Cymru



Diweddariad gan Gymdeithas Gwas y Neidr Prydain

Gyda'r cyfyngiadau symud yn effeithio ar weithgareddau awyr agored mae Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau allgymorth a chyfathrebu ar-lein yn ystod 2020. Mae hyn yn cynnwys y wefan newydd sydd ag offer newydd, megis y map rhyngweithiol 'ble i weld gweision y neidr' o'r prif safleoedd gweision y neidr i ymweld â hwy. Os hoffech i safle gael ei gynnwys cysylltwch â'r Swyddog Cadwraeth, Eleanor Colver (eleanor.colver@british-dragonflies.org.uk). Gallwch hefyd ddod o hyd i amrywiaeth eang o adnoddau sy'n ymwneud â gwas y neidr (gan gynnwys llyfrgell o ffotograffau y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim, taflenni addysgol a gweithgareddau i blant) yn yr adran Adnoddau newydd <https://british-dragonflies.org.uk/get-involved/resources/>

Mae staff wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio rhifynnau'r gwanwyn o gylchgronau Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain. Os oes gennych chi stori sy'n ymwneud â gwas y neidr neu wlypdiroedd yr hoffech iddi gael ei chynnwys, cysylltwch â'r Swyddog Allgymorth fiona.mckenna@british-dragonflies.org.uk.

Rydym yn gobeithio y bydd gweithgareddau cofnodi'n dychwelyd i normal y flwyddyn nesaf. Nodyn sydyn i'ch atgoffa: mae ein prif weithgarwch cofnodi'n golygu bod gwirfoddolwyr yn mabwysiadu safleoedd gwlypdiroedd i ymweld â hwy o leiaf deirgwaith y flwyddyn er mwyn cwblhau arolwg syml o rywogaethau. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gweithgarwch cofnodi 'Mabwysiadu Safle' yma: <https://british-dragonflies.org.uk/recording/bds-recording-scheme/>

Byddem yn mawr werthfawrogi cymorth i hyrwyddo'r gweithgarwch yn y gwanwyn. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cymorth i annog cofnodwyr presennol sydd eisoes yn arolygu gwlypdiroedd yn rheolaidd i gofrestru eu safleoedd drwy'r dudalen we.

Eleanor Colver
Cymdeithas Gwas y
Neidr Prydain



Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 776 146 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth>
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

